# Taflen Wybodaeth y Claf 13

## Deddf Iechyd Meddwl 1983

## Adran 37: Gwarcheidiaeth (trwy Orchymyn Llys)

Enw eich gwarcheidwad yw:

| |
|---|
| |

Cyfeiriad a rhif ffôn eich gwarcheidwad yw:

| |
|---|
| |

Eich Clinigwr â Chyfrifoldeb neu'r meddyg a enwebwyd yw:

| |
|---|
| |

### Beth yw gwarcheidiaeth?

O dan adran 37 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gall y Llys orchymyn eich bod yn cael gwarcheidwad i'ch helpu os bydd dau feddyg yn dweud bod angen hynny oherwydd eich anhwylder meddyliol.

Bydd y gwarcheidwad yn rhywun o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol eich ardal leol, neu'n rhywun a gymeradwywyd gan yr Adran honno. Gall y gwarcheidwad ddweud bod yn rhaid i chi wneud rhai pethau. Efallai y bydd yn rhaid i chi:

- fyw mewn man penodol
- bod mewn mannau penodol ar adegau penodol i gael triniaeth feddygol, hyfforddiant neu addysg alwedigaethol
- gadael i feddyg, proffesiynolyn iechyd meddwl cymeradwy neu unigolyn arall a enwir eich gweld.

### Pam y mae angen gwarcheidwad arnaf

Mae'r Llys o'r farn bod angen help arnoch i fyw yn y gymuned, oherwydd bod gennych anhwylder meddyliol a bod angen gwarcheidwad arnoch er eich lles eich hun neu er mwyn diogelu pobl eraill.

### Am ba hyd y bydd yn para?

Gall eich gwarcheidiaeth bara am hyd at chwe mis i ddechrau.

### Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ddiwedd y chwe mis, bydd modd adnewyddu eich gorchymyn gwarcheidiaeth am chwe mis arall ac yna am flwyddyn ar y tro, os bydd eich clinigwr â chyfrifoldeb o'r farn bod angen gwneud hynny. Bydd eich clinigwr â chyfrifoldeb neu'ch gweithiwr cymdeithasol yn sôn wrthych am hynny'n nes at yr amser.

